Nematodirws

Mae Nematodirws (*Nematodirus battus*) yn glefyd sy'n niweidio ŵyn ifainc ar borfa a gafodd ei bori gan ŵyn y flwyddyn flaenorol.

Gall Nematodirws gael effaith cyflym ar ŵyn, ac yn aml bydd y niwed yn anodd ei wella; dyna pam mae'n bwysig gwneud defnydd cyson o'r Rhagolygon Nematodirws ar gyfer eich ardal – sydd ar gael am ddim ar wefan SCOPS – https://www.scops.org.uk/forecasts/nematodirus-forecast/.

Arwyddion o Nematodirws:

- Dolur rhydd difrifol
- Araf yn tyfu a chyflwr y corff yn gwaethygu
- Yr ŵyn sy'n dioddef yn gwrthod ymateb ac yn ddiegni
- Dadhydriad
- Ŵyn yn cael eu canfod yn farw.

Fe'ch cynghorir yn gryf i beidio ag aros nes bod yr arwyddion hyn yn digwydd. Yn hytrach, dylech wneud defnydd cyson o'r rhagolygon ar gyfer eich ardal er mwy atal problem

Ymhlith y ffactorau risg ar gyfer achosion difrifol mae:

- Ŵyn ar borfa a gafodd ei bori gan ŵyn y flwyddyn flaenorol
- Ŵyn 6 –12 wythnos oed sydd mewn mwyaf o berygl
- Ŵyn dan straen megis tripledi neu ŵyn a gollodd eu mamau
- Tywydd oer yn ildio'n sydyn i dywydd cynhesach

Diagnosis:

- Gall diagnosis fod yn anodd oherwydd fedrwch chi ddim dibynnu ar gyfrifiadau wyau llyngyr o samplau dom i ddangos fod problem yn bodoli am fod y larfâu yn achosi difrod cyn iddynt gyrraedd llawn dwf a dodwy wyau.

Triniaeth:

- Nid oes unrhyw driniaeth barhaol rhag y parasit hwn.
- Mynnwch air â'ch milfeddyg am y moddion mwyaf effeithiol i drin Nematodirws. Argymhellir eich bod yn cyfrifo wyau ysgarthol eich ŵyn 7–10 niwrnod ar ôl triniaeth i wneud yn siŵr y bu'n effeithiol.